**DEDDF HENEBION HYNAFOL AC ARDALOEDD ARCHAEOLEGOL 1979**

**CEISIADAU AM GANIATÂD HENEB GOFRESTREDIG I GYNNAL CLODDIADAU YMCHWIL - CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR**

Bydd angen i gais am ganiatâd i gynnal cloddiad ymchwil ar heneb gofrestredig ddangos bod y strategaeth ymchwil wedi'i chynllunio er mwyn cyflawni amcanion y gellir eu nodi'n glir a bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i ddulliau amgen o gyflawni'r amcanion hynny, drwy, er enghraifft, gloddio safle heb ei gofrestru. Mae'n hanfodol, felly, bod cais am ganiatâd heneb gofrestredig yn cael ei gyflwyno gyda ffurflen gloddio ynghyd â:

i. datganiad yn nodi pam ei bod yn angenrheidiol cloddio heneb gofrestredig yn hytrach na safle heb ei gofrestru a'r rhesymau dros ddewis yr heneb dan sylw;

ii. amlinelliad o'r technegau nad ydyn nhw'n ddinistriol fel arolwg maes, arolwg geoffisegol, cofnodi adeiladau neu ffotograffiaeth o'r awyr sydd wedi'u defnyddio ac a fydd yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun y strategaeth gloddio;

iii. cofnod i ddangos beth yw'r amcanion y gobeithir eu cyflawni drwy gloddio;

iv. manylion am unrhyw gloddiadau cyfatebol ar y safle dan sylw yn y cais neu mewn man arall.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon hefyd y gall y cloddiwr ddangos y bydd digon o adnoddau (o ran cyllid a phobl) ar gael er mwyn sicrhau:

i. y gellir goruchwylio'r cloddiad yn ddigonol, yn cynnwys gofynion iechyd a diogelwch, a'i gwblhau yn ôl yr amserlen a gynigir;

ii. y gellir cyflawni gwaith ôl-gloddio, yn cynnwys cadwraeth, dyddio (C14, dendrocronoleg ac ati) a gwaith amgylcheddol; a

iii. bydd yr adroddiad cloddio'n cael ei gwblhau o fewn 5 mlynedd o ddiwedd y gwaith cloddio ac na fydd oedi o ran cyhoeddi'r canlyniadau oherwydd ymrwymiadau sydd ar y gweill (mewn perthynas â hyn, pan fo'r ymgeisydd yn academydd gyda chyfrifoldebau addysgu, bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl, i gyd-fynd â'r cais, y bydd sicrwydd bod ei Bennaeth ef/hi yn yr Adran/y Brifysgol yn cefnogi'r prosiect ac na fydd dyletswyddau'r ymgeisydd yn atal y gwaith ôl-gloddio rhag cael ei gwblhau'n gynnar).

Dylid sicrhau bod Cadw yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiant y ceisiadau am gyllid ac am unrhyw addasiadau i'r strategaeth gloddio o ganlyniad i ddiffyg mewn cyllid.

Bydd ceisiadau i wneud gwaith ar heneb gofrestredig nad yw dan fygythiad cynigion datblygu neu ddifrod oherwydd erydu ac ati yn ddarostyngedig i archwiliad trylwyr. Dylai ymgeiswyr am Ganiatâd Heneb Gofrestredig sicrhau, felly, bod eu ceisiadau'n cynnwys yr holl ddogfennau a'u bod yn cael eu cyflwyno ymhell cyn y dyddiad cychwyn a gynigir ar gyfer y cloddiad arfaethedig er mwyn sicrhau y bydd digon o amser i ddatrys unrhyw ymholiadau. Mewn achosion dadleuol, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n gorfod cynnal ymchwiliad cyhoeddus ac mae angen ystyried y ffactor hwn wrth gynllunio cloddiad ymchwil.

**CAIS AM GANIATÂD HENEB GOFRESTREDIG**
**FFURFLEN ATEGOL AR GYFER CLODDIADAU**

**(I'w chwblhau gan yr ymgeisydd neu ar ei ran mewn PRIFLYTHRENNAU neu deipysgrif)**

**A fyddech cystal ag amgáu, gyda'r cais, gynllun o'r cloddiad arfaethedig a'r ardal amgylchynol yn ôl graddfa o 1:2,500 o leiaf gan farcio union fan y safle a lleoliad yr ardal i'w gloddio. Dylid gwahaniaethu'n glir yr ardaloedd a gloddiwyd yn flaenorol.**

**1. Enw'r safle**

**2. Cymuned, Ardal a Sir y Safle**

**3. Cyfeirnod Grid**

**4. Cyfnod y cloddiad arfaethedig (dyddiad cychwyn a nifer wythnosau)**

**5. Natur y cloddiad (ee treial, tymor cyntaf prosiect aml dymor, prosiect un tymor yn unig)**

**6. Ydych chi wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr a/neu'r deilydd i gloddio'r safle?**

**7. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog**

**8. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn deilydd y safle, os nad y deilydd yw'r perchennog**

**9. Disgrifiwch yn gryno y math o safle ydyw a chyfnod y safle**

**10. Beth yw amcanion academaidd y cloddiad arfaethedig? (Amlinellwch y strategaeth ar gyfer y cloddio gan gynnwys y strategaeth ar gyfer samplo)**

**11. Cyflwr presennol y safle**

**12. Disgrifiwch yn gryno unrhyw waith archaeolegol blaenorol ar y safle**

| | |
|---|---|
| **13.** | **Disgrifiwch yn gryno unrhyw ragchwiliad o’r safle a gwaith ymchwil cefndirol a gynhaliwyd** |

| | |
|---|---|
| **14.** | **Enw cyfarwyddwr y cloddiad arfaethedig** |

| | |
|---|---|
| **15.** | **Yn gryno, beth yw ei brofiad ef/hi o ran cloddio, ôl-gloddio ac ymchwil?** |

| | |
|---|---|
| **16.** | **Pa ymrwymiadau sydd ganddo ef/hi ar y gweill o ran cloddio ac ôl-gloddio?** |

| | |
|---|---|
| **17.** | **Manylion staff goruchwylio a maint y gweithlu** |

**18.** **Sut bydd y gwaith cloddio'n cael ei ariannu? (Nodwch, lle y bo'n berthnasol, pryd fydd canlyniadau unrhyw gais/geisiadau grant yn hysbys)**

**19.** **Beth yw'r trefniadau ar gyfer adfer y safle ar ôl y cloddiad?**

**20.** **Gwaith ôl-gloddio:**

**Pa drefniadau ariannol a gweinyddol sy'n cael eu gwneud ar gyfer:**

**i.** **Trefniadaeth archif y safle**

**ii.** **Gwarchod canfyddiadau**

**iii.** **Trefniadaeth canfyddiadau**

**iv.** **Gwaith amgylcheddol a dyddio C14**

**v.** **Paratoi'r adroddiad terfynol (cofiwch gynnwys amserlen)**

**21. Lle ydych chi'n gobeithio y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi?**

**22. Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cais**

**Llofnodwyd**

**Dyddiad**